



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gwasanaethau Share Care

**Adeiladau Co-Options
9 Rhodfa Victoria
Prestatyn
LL19 9DF**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/02/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Gwasanaethau Share Care

| | |
|--|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Co-Options Ltd |
| Lleuedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Hydref 2020 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael budd o'r gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir iddynt a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn *“really happy”* a bod y gwasanaeth yn *“fantastic”* a *“brilliant”*. Caiff y bobl eu cefnogi mewn sawl agwedd wahanol ar eu bywydau, gan gynnwys gartref ac allan yn y gymuned. Mae'r staff yn ymrwymedig ac yn frwdfrydig am gefnogi'r bobl, cynnig anogaeth iddynt, eu hysgogi a chynyddu eu hannibyniaeth. Mae trefniadau cyfathrebu da ar waith ac mae cydberthnasau llawn ymddiriedaeth wedi cael eu ffurfio rhwng y bobl, eu teuluoedd, y staff a'r tîm rheoli. Mae'r adborth ar y gwasanaeth yn gyson dda. Roedd y perthnasau wedi canmol y gwasanaeth yn fawr, gan nodi *“overall pleased”*, *“really good service”* a *“they are brilliant”*.

Caiff gwiriadau recriwtio eu cynnal a gwnaethom drafod â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr y dylai'r gwiriadau hyn fod yn fwy trylwyr. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda a gwnaethant sôn am eu boddhad yn y gwaith a'u bod yn gweithio mewn amgylchedd cefnogol iawn. Maent yn ymgymryd â phroses sefydlu fanwl, yn cysgodi aelodau o staff mwy profiadol ac yn cwblhau hyfforddiant. Er hyn, mae'r hyfforddiant yn anghyson ac mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyfforddiant staff. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac mae ganddynt gynllun i fynd i'r afael â'r mater.

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio, ond mae diffygion yn y systemau a'r prosesau sydd ar waith i fonitro a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r adolygiad o ansawdd y gofal.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth gadarn dros eu bywydau. Mae'r staff yn gwranddo arnynt ac maent yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut yr hoffent gael eu cefnogi. Anogir y bobl i osod a chyflawni nodau realistig a phwrpasol i fyw bywydau boddhaus, cynyddu annibyniaeth a chynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae sylwadau'r bobl yn cynnwys, “[they] take my needs in to account”, “really supportive” a “[they] help with day-to-day life”. Cadarnhaodd perthnasau bod y bobl yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn y maent am ei wneud ac i gael profiadau cadarnhaol a rhoddwyd enghraifft o sut roedd y gwasanaeth wedi eirioli ar ran y bobl. Dywedodd perthynas wrthym fod yr aelod o'i deulu dan sylw yn “absolutely loves it”. Caiff dewisiadau personol y bobl eu parchu ac mae'r staff yn cael eu paru â nhw yn seiliedig ar y diddordebau y maent yn eu rhannu a'u personoliaethau. Cyfeiriodd y perthnasau at nodweddion a phersonoliaethau gwahanol y staff. Dywedodd y staff wrthym, “It's a good service, people are listened to and respected”.

Caiff anghenion iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu diwallu'n gyson. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys fel y bo angen ac mae'r adborth ar y gwasanaeth yn gadarnhaol. Caiff gwybodaeth fanwl am anghenion iechyd a chymorth y bobl ei chofnodi er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol ohonynt. Gwneir nodiadau dyddiol sy'n cyfeirio at iechyd a llesiant emosiynol y bobl. Maent hefyd yn adlewyrchu'r cymorth a roddir, yn cydnabod teimladau'r bobl ac yn cofnodi unrhyw gynnydd a wneir mewn perthynas ag annibyniaeth, cyflawni nodau a defnyddio gwasanaethau eraill. Mae'r bobl yn cael budd o allu cymdeithasu â'u ffrindiau, mwynhau gweithgareddau, cyrsiau coleg, swyddi gwirfoddol a chyflogaeth â thâl ac yn cynyddu eu sgiliau byw bob dydd. Dywedodd y staff fod “a good variety of work/activities throughout the week”. Mae gan y bobl gydberthnasau gwerthfawr â'r staff sy'n eu cefnogi. Dywedodd perthnasau wrthym am y cydberthnasau sydd wedi cael eu ffurfio rhwng y bobl a'r staff, gan nodi bod eu haelod o'r teulu yn “trusts them”. Dywedodd y staff wrthym am y “Job satisfaction from helping service users and their families”.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed, ond mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyfforddiant y staff. Gall y bobl alw heibio'r swyddfa ar unrhyw adeg a dywedwyd bod y staff yn “approachable” ac yn “friendly” yno. Cadarnhaodd perthnasau eu bod yn gallu codi unrhyw faterion neu bryderon sydd ganddynt a bod y staff yn mynd i'r afael â nhw'n effeithiol ar unwaith. Dywedodd y staff wrthym eu bod bob amser yn cael eu cefnogi pan fo materion yn codi a bod “lovely atmosphere, any problems there is always somebody to contact”. Mae polisi diogelu ar waith ond nid yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae rhai bylchau mewn hyfforddiant craidd arall.

Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am y cymorth y maent am ei gael gan y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys yr hyn sydd o bwys gwirioneddol i'r bobl, y pethau sy'n gweithio a'r pethau nad ydynt yn gweithio ac unrhyw rwystrau. Caiff dulliau cyfathrebu dewisol, cyfraniad y teulu ac unrhyw wasanaethau eraill y mae'r bobl yn eu defnyddio eu cofnodi hefyd. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ynghylch ychwanegu mwy o wybodaeth at y cynlluniau a dogfennaeth gysylltiedig arall er mwyn sicrhau cysondeb. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau bob tri mis gan y rheolwr. Caiff unrhyw newidiadau eu rhannu â'r staff i gyd ar ap grŵp electronig. Dywedodd perthynas wrthym fod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â nhw.

Mae'r gwasanaeth yn ymgynghori â'r bobl ac yn ystyried eu dymuniadau personol ac unrhyw risgiau. Caiff y bobl eu hannog i alw heibio'r swyddfa i gael sgwrs. Dywedodd y rheolwr y gall hyn fod yn effeithiol er mwyn cynyddu annibyniaeth y bobl wrth deithio yn ogystal â'u helpu mewn cyfnodau o ansicrwydd neu pan fyddant wedi cynhyrfu. Cadarnhaodd y bobl a'u perthnasau fod hyn yn digwydd a'i fod yn fuddiol ac yn werth chweil. Dywedodd perthynas fod aelod o'i deulu yn teimlo y gall *"drop into the office"*. Dywedodd perthnasau wrthym fod y bobl yn cael help un i un gan y staff i feithrin eu sgiliau byw yn annibynnol, cyfathrebu'n well, deall arian, achub ar gyfleoedd gwaith a hamdden a chael arweiniad cyffredinol ganddynt. Cysylltir â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol am gyngor a chymorth pan fo angen. Mae sylwadau'r gweithwyr proffesiynol yn cynnwys, *"Whenever there are issues, they take on board advice very quickly and implement it"*. Caiff gwybodaeth fanwl ei chofnodi yn yr adran 'Fy iechyd a'm corff', gan gynnwys unrhyw broblemau, gwiriadau iechyd rheolaidd a blynyddol a chaiff cynlluniau gweithredu iechyd eu cwblhau hefyd. Mae asesiadau risg ar waith i gadw'r bobl a'r staff yn ddiogel. Mae strategaethau llwyddiannus hefyd ar waith i gefnogi'r bobl sy'n cynnwys camau arbennig i'r staff eu cymryd. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod dulliau cywir yn cael eu defnyddio a'u bod wedi gweithio'n dda iawn *"in developing in those areas"*. Caiff nodiadau dyddiol eu cofnodi mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft, e-bost, apiau a chofnodlyfrau dyddiol. Mae'r rheolwr yn ystyried sut y gellir gwneud hyn mewn ffordd fwy cyson a'i archwilio er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd da yn cael eu darparu.

Mae'r darparwr yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint ar y cyfan. Gall y staff ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) ac mae polisi ar waith ar gyfer rheoli heintiau. Yn ôl y cofnod hyfforddiant, nid yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth lle y caiff tîm o staff cryf ei recriwtio. Mae'r aelodau hyn o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, ond mae angen gwella'r trefniadau hyfforddiant. Caiff gwiriadau recriwtio eu dilyn a gwnaethom drafod â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr y dylai'r gwiriadau hyn fod yn fwy trylwyr. Caiff y staff eu goruchwyllo'n effeithiol yn eu rolau a gallant gael cyngor a chymorth gan y tîm rheoli ar unrhyw adeg. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys, *"uplifting supportive environment"*, *"A great atmosphere in the workplace, feel supported by management and other staff"*, *"friendly and supportive service"* ac *"excellent service and support provided"*. Ar y cyfan, mae'r staff yn teimlo'n gadarnhaol ac yn fodlon ynghylch yr hyfforddiant y maent yn ei gael. Nododd y rhan fwyaf o'r staff yn yr arolwg fod y cyfleoedd dysgu a datblygu yn dda a dywedodd un fod angen eu gwella. Yn ôl y cofnod hyfforddiant, mae rhai bylchau mewn hyfforddiant craidd yn ogystal â hyfforddiant arbenigol. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac maent eisoes wedi bod yn chwilio am hyfforddiant perthnasol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff diwylliant cadarnhaol ei hyrwyddo gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ac maent yn frwdfrydig, yn ymrwymedig ac yn arwain drwy esiampl. Mae sylwadau gan y gweithwyr proffesiynol yn cynnwys, *"The manager is very caring and goes the extra mile in my opinion to ensure people are supported well"*. Mae adborth y perthnasau ar y rheolwr yn gyson dda, gan gynnwys *"fab"* ac *"amazing"* ac y gallant ei ffonio i drafod unrhyw beth. Pan ofynnwyd i'r staff beth sy'n gweithio'n dda, gwnaethant ddweud *"Managers are really good"*, *"value teamwork"*, *"Teamwork and support from line managers"*, *"The team I work with are thorough, dedicated, show empathy"* a *"love my job, love going to work"*.

Mae rhai trefniadau llywodraethu ar waith, ond nid ydynt yn ddigonol er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn weithgar iawn yn y gwasanaeth. Maent yn darparu cymorth uniongyrchol i'r bobl pan fo angen, ond gall hyn effeithio ar eu cyfrifoldebau eraill. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i flaenoriaethu a dirprwyo gwaith sydd angen ei gyflawni. Caiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cwblhau ond mae'r rhain yn gyfyngedig ac nid ydynt yn cael eu cynnal bob chwe mis. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

| Statws | Ystyr pob un |
|---------------------|---|
| Newydd | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| Adolygwyd | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| Heb Gyflawni | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| Cyflawnwyd | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|----------|---|--------|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|----------|--|--------|
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi cael hyfforddiant craidd ac arbenigol. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant craidd ac arbenigol i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn gwneud darpariaeth i adolygu ansawdd y gofal a'r cymorth bob chwe mis o leiaf. Sicrhau y caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau mor aml ag sy'n ofynnol. | Newydd |

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 02/04/2024